# Adroddiad Blynyddol Clinig y Gyfraith Abertawe 1 Awst 2025 - 31 Mai 2026

Mae Clinig y Gyfraith Abertawe wedi cael blwyddyn academaidd brysur a llwyddiannus arall, sydd wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i gynnig nifer o gyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr yn **Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton.**

Mae'r nawfed adroddiad blynyddol hwn yn asesu gweithgareddau'r Clinig o 1 Awst 2025 tan 31 Mai 2026. Mae'r cyfnod adrodd a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ychydig yn fyrrach eleni, oherwydd ein gwaith paratoi ar gyfer ein Hasesiad Monitro ar gyfer y Safon Cyngor Ansawdd (AQS) a gynhelir ddechrau Gorffennaf 2026.

Eleni, rydym wedi parhau i gynnig apwyntiadau naill ai wyneb yn wyneb neu apwyntiadau o bell dros Zoom i gleientiaid. Mae rhai prosiectau wedi bod yn rhai wyneb yn wyneb yn unig (er enghraifft, apwyntiadau a gynhaliwyd mewn lleoliadau allgymorth), ond mae apwyntiadau mewnol wedi bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion y cleient.

Cafodd y modiwl 20 credyd LAA366/LAA367, *Addysg Gyfreithiol Glinigol*, ei gynnal eleni, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn ystod Blociau Addysgu Un a Dau. Eleni, bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr a chynyddodd uchafswm y myfyrwyr ym mhob carfan o 20 i 30. Yn 2025/26, cofrestrodd **50** o fyfyrwyr ar y modiwlau hyn, **26** ym mloc addysgu un a **24** ym mloc addysgu dau.

Mae ein prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder wedi parhau i fod ar gael fel prosiect gwirfoddoli yn unig. Mae'r prosiect *Camweinyddiad Cyfiawnder* yn gweithio mewn partneriaeth â'r elusen, Inside Justice, sy'n cyfeirio achosion at y Prosiect. Cynhaliwyd proses ymgeisio gystadleuol i sicrhau lle ar y prosiect eleni, a derbyniwyd **10** myfyriwr i wirfoddoli ar y prosiect.

Cofrestrodd **155** o fyfyrwyr ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol gwirfoddol ar ein prosiectau amrywiol (gan gynnwys y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder a'r Prosiect Cyfraith Stryd) sy'n golygu bod cyfanswm o **205** o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Clinig yn ystod 2025/26.

Cynghorodd y Clinig ar gyfanswm o **62** o achosion gwahanol.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar cwmni cyfreithiol sydd wedi darparu cyfreithwyr i wirfoddoli yn yr Apwyntiadau Cyngor 30 munud, y Cymorthfeydd Cyfreithiol a'r Clinigau Galw Heibio.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cwmnïau canlynol a'u cyfreithwyr gwirfoddol am eu cefnogaeth:

- Smith Llewelyn Partnership
- Hodge Jones and Allen
- Graham Evans and Partners
- Moore Barlow Lawyers

Meithrinodd y Clinig bartneriaethau newydd hefyd, a gwnaethom barhau i ddatblygu ein partneriaethau presennol.  Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth a gawsom gan Ysgol Gymunedol y Gors, Prosiect *better* Bonymaen, Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe, Canolfan Gofalwyr Abertawe, Age Cymru, Eastside Foodbank, Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol, yr Archifau Cenedlaethol, Tabled Technologies Ltd., Innovate UK, Inside Justice, LawWorks, Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan a Choleg Gŵyr.

Mae'r Clinig yn meddu ar nod barcud ansawdd y Safon Ansawdd Cyngor (AQS) ac mae'n un o dri chlinig y gyfraith yn unig mewn prifysgolion yn y DU sydd wedi ennill yr AQS. Fel y nodwyd uchod, bydd trydydd archwiliad llawn y Clinig yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2026.

Cafodd y Clinig ei achredu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) i ddarparu cyngor ar fewnfudo a lloches yn 2021. Ers hynny, mae'r OSIC wedi newid ei henw i'r Awdurdod Cynghori ar Fewnfudo (IAA).  Rydym yn aros i glywed gan yr IAA ynghylch ein cais am gofrestriad parhaus o 17 Mai 2026.

Roedd gweithgareddau myfyrwyr yn ystod 2025/26 yn cynnwys y canlynol:

- Sesiynau cyngor 30 munud (myfyrwyr gwirfoddoli yn cysgodi apwyntiadau cychwynnol gyda chyfreithwyr - naill ai o bell neu wyneb yn wyneb);
- Apwyntiadau dan arweiniad myfyrwyr cynghori (myfyrwyr cynghori'n cwrdd â chleientiaid o bell);
- Clinigau galw heibio a chymorthfeydd cyfreithiol;
- Y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder;
- Clinig anafiadau personol a gynhelir o bell (myfyrwyr gwirfoddoli'n cysgodi apwyntiadau cychwynnol gyda'n cyfreithiwr partner yn Hodge Jones and Allen - clinig o bell);
- Gwirfoddoli cydweithredol (Prosiect HOPE, Age Cymru);
- Gweithgarwch y Clinig ar gyfer y Diwrnod Gweithredu Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd;
- Cyfraith Stryd;
- Sialens Codi Arian Sialens Ysgolion y Gyfraith;
- Bwrdd y Myfyrwyr.

Byddwn yn cynnig Clinig Haf i fyfyrwyr ym mis Mehefin/Gorffennaf 2026, a fydd yn cynnwys ein prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder, Clinigau Galw Heibio a Sesiynau Cyngor 30 munud (myfyrwyr gwirfoddoli'n cysgodi apwyntiadau cychwynnol gyda chyfreithwyr - naill ai o bell neu wyneb yn wyneb);

## Staffio

Yn ystod 2025/26, roedd gan y Clinig yr un staff craidd ag yn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys un swydd gwasanaethau proffesiynol amser llawn: Ellen Parker-Jones, Rheolwr Clinig y Gyfraith. Yr Athro Rich Owen yw Cyfarwyddwr Clinig y Gyfraith Abertawe o hyd.

Parhaodd ein **Rhwydwaith Cyngor Cymunedol Abertawe Castell-nedd Port Talbot (SNPTCAN)** eleni a phenodwyd Uwch-weinyddwr Prosiectau newydd. Ymunodd Jess


Williams â'r tîm ym mis Medi ar gontract tymor penodol ar ôl i ni sicrhau cyllid gan y Loteri Genedlaethol tan 31 Mawrth 2026. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu sicrhau cyllid parhaus a gadawodd Jess y Brifysgol ar ddiwedd mis Mawrth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Jess am ei chyfraniad at brosiect SNPTCAN ac i'r Clinig yn gyffredinol.

Parhaodd y Clinig i weithio gyda **Phrosiect Odyssey** sy'n rhan o brosiect ymchwil a ariennir gan Innovate UK. Partneriaid y prosiect yw: Tabled Technologies Ltd, Prifysgol Northumbria, Prifysgol Keele, Prifysgol Durham a'r Archifau Cenedlaethol. Prif amcan y prosiect yw datblygu ap Cynorthwy-ydd AI i ddarparu cyngor cyfreithiol rhad/am ddim i unigolion a busnesau bach a chanolig, gan ganolbwyntio ar gyfraith lles cymdeithasol. Ymunodd Aisha Bashir â thîm y Clinig fel Swyddog Ymchwil ym mis Medi 2025, ar gontract cyfnod penodol. Gadawodd Aisha'r Brifysgol ar ddiwedd mis Mawrth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Aisha am ei chyfraniad at Brosiect Odyssey ac i'r Clinig yn gyffredinol.

Rydym hefyd wedi bod yn ddiolchgar iawn am gymorth staff academaidd Ysgol y Gyfraith, Michaela Leyshon, Geraint Fry, Lowri Davies, Sophie Hill a Matthew Parry, sydd oll wedi helpu i gynnal y modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol, gan oruchwylio cyfweliadau myfyrwyr â chleientiaid. Hoffem ddiolch hefyd i Helen Yu o'r Ysgol Reolaeth am ei chefnogaeth. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Michaela Leyshon sydd wedi cynnig cymorth ychwanegol.

Mae Bwrdd Myfyrwyr y Clinig wedi parhau drwy gydol y flwyddyn, a bu'r myfyrwyr canlynol yn cynrychioli gwahanol weithgareddau:

- Ayzah Butt (Cynrychiolydd y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder)
- Caitlin Baldwin, Sophie Myers a Vasisht Prabhu (Cynrychiolwyr y modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol, y ddau semester)
- Chase Montague a Morgan Sinclair (Cynrychiolwyr y prosiect Cyfraith Stryd)
- Lucy Baker a Hannah MacEwen (Cynrychiolwyr Prosiect Sialens Ysgolion y Gyfraith)
- Lily Persaud (Cynrychiolydd y Diwrnod Gweithredu Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd)




**Siart Sefydliadol Staff Clinig y Gyfraith Abertawe, Hydref 2025**

## Gwobrau a Chydnabyddiaeth y Clinig

***Gwobrau HEAR y Clinig***

Mae'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR) yn gofnod cynhwysfawr o ddysgu a chyflawniadau myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Cafodd **Gwobr Cofnod Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR) Clinig y Gyfraith Abertawe** ei dilysu yn 2019/20, ac roeddem yn gallu dyfarnu **naw Gwobr Aur, 33 Gwobr Arian a naw Gwobr Efydd (cyfanswm o 51)** i fyfyrwyr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025/26.

I ennill y Wobr Efydd mae myfyrwyr yn gwirfoddoli am **20 awr** gyda'r Clinig (mae'r oriau hyn yn cynnwys gwirfoddoli, hyfforddi a myfyrdod cryno ar eu profiad). Mae enillwyr y Wobr Arian wedi cwblhau **30 awr** o wirfoddoli ac mae'r rhai hynny sy'n cyflawni'r Wobr Aur wedi cwblhau **30 awr** o wirfoddoli ac wedi bod yn aelod o **Fwrdd Myfyrwyr y Clinig.**


Llongyfarchiadau enfawr i Lucy Baker, Caitlin Baldwin, Ayzah Butt, Hannah MacEwan, Chase Montague, Sophie Myers, Lily-Rose Persaud, Vasisht Prabhu a Morgan Sinclair am ennill y Wobr Aur ac i Hannah Aldridge, Zaynub Ali, Hannah Alkathiri, Brier Baldwin, Jacob Ball, Beau Childs, Katie Cooper, Yasmine Diwany, Thomas Dixon, Madison French, Khell Giffen, Laurene Govier, Deborah Gyasi, Sian Harrison, Jessica Henderson, Lateefah Lewis, Katelynn Locke, Stephanie Madden, La-Verne Masocha, Aimee McCullagh, Charlotte McGawn, Fleur Morgan, Madeha Nahi, Kylie Nash, Arianna Rees, Carys Richards, Libby Robinson-Boyce, Isabelle Shaw, Skyla Stevens, Hadassah Swayze, Ffion Thomas, Koralia Tsavari a Miles Welton am ennill y Wobr Arian.

Llongyfarchiadau hefyd i Megan Bennett, Lucas Forster, Razan Malik, Sara Mohan, Shayna Neibergall, Lauren Pogson, Carys-Tara Sage, Maria Schofer ac Isobel Wharrad am ennill y Wobr Efydd.

## Dadansoddiad o achosion fesul math o weithgaredd

***Y Modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol***

- ***Cyfanswm o 50 achos***





Cafodd myfyrwyr a gofrestrodd ar y modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol eu hyfforddi fel Myfyrwyr Cynghori a gwnaethant gynnal cyfweliadau ag aelodau'r cyhoedd yr oedd angen cyngor cyfreithiol arnynt. Roedd y myfyrwyr yn cynnal eu cyfweliadau â chleientiaid o swyddfeydd Clinig y Gyfraith ar Gampws Singleton, ac roedd eu goruchwylwyr yn bresennol.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf (64%) o'r cyfweliadau â'n cleientiaid wyneb yn wyneb, a gofynnodd gweddill y cleientiaid (36%) am apwyntiadau o bell, a gynhaliwyd dros Zoom. Mae'r canrannau hyn yn debyg i'r ffigurau yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Cynghorodd myfyrwyr cynghori ar **50** o achosion cyfreithiol unigol yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn. Trafododd y cyfweliadau feysydd y gyfraith a ddangosir ar y siart cylch uchod; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud naill ai â theuluoedd/perthnasoedd yn chwalu, materion tai, cwsmeriaid, cyflogaeth/gwahaniaethu neu fewnfudo.

***Cymorthfeydd Cyfreithiol yng Nghanolfan Gofalwyr Abertawe / Clinig Galw Heibio Ysgol Gymunedol y Gors / Rhagfyr 2025, Clinig Galw Heibio Cyfraith Teulu / Clinig Anafiadau Personol o Bell***

***- Cyfanswm o 11 achos***




***Cymorthfeydd Cyfreithiol yng Nghanolfan Gofalwyr Abertawe***

Buom yn gweithio eto mewn partneriaeth â Chanolfan Gofalwyr Abertawe i gynnal **Cymhorthfa Gyfreithiol** wyneb yn wyneb yn eu swyddfeydd yn Abertawe, fel rhan o'u prosiect 'Byw a Dysgu Dementia'. Cynhaliwyd y gymhorthfa hon yng Nghanolfan Gofalwyr Abertawe, Capel Bethesda, Heol Tywysog Cymru, Abertawe. Roedd yr apwyntiadau hyn yn cynnig 30 munud o gyngor am ddim. Cafodd tri chleient eu helpu drwy'r gwasanaeth a'r prif feysydd o'r gyfraith oedd: Materion y Llys Gwarchod ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

***Clinig Galw Heibio Ysgol Gymunedol y Gors***

Cawsom ein gwahodd gan Ddirprwy Bennaeth **Ysgol Gymunedol y Gors**, Rhodfa'r Gors, Abertawe, i gymryd rhan mewn cyfres o Sesiynau Galw Heibio Cyngor Cymunedol yn ystafelloedd cymunedol yr ysgol. Rydym yn teimlo bod gweithio mewn partneriaeth â sefydliad angori yn gymorth wrth ymgysylltu â'r gymuned, felly roeddem wrth ein boddau'n bod yn rhan o'r prosiect hwn. Aethom i'r sesiwn gyntaf yn ym mis Mai 2026. Gwnaethom gynorthwyo tri chleient drwy gynnig apwyntiadau cyngor 30 munud am ddim iddynt. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at barhad y bartneriaeth hon dros y misoedd i ddod ac mae nifer o sesiynau yn yr arfaeth. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys Cyfraith Teulu a Chyfraith Cyflogaeth.

***Rhagfyr 2026 - Clinig Galw Heibio Cyfraith Teulu***

Wrth i Semester Un ddod i ben, gwnaethom gynnig **Clinig Galw Heibio Cyfraith Teulu.** Cynhaliwyd y clinig galw heibio yn ein swyddfeydd ar y campws. Rydym yn ddiolchgar iawn i Michaela Leyshon a Bethan James o Smith Llewelyn Partnership am eu cymorth wrth gynnal y Clinig Galw Heibio Cyfraith Teulu. Cynigiodd y clinig galw heibio hwn apwyntiadau cyngor am ddim 30 munud o hyd. Cafodd dau gleient eu helpu drwy'r clinigau galw heibio.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Michaela Leyshon a Bethan James am eu cymorth wrth gynnal y clinig hwn.

### *Clinig o Bell ar Anafiadau Personol*

Gan weithio mewn partneriaeth â Hodge Jones and Allen, buom yn parhau i gynnig ein **Clinigau o Bell ar Anafiadau Personol** drwy gydol y flwyddyn academaidd hon. Cafodd tri chleient eu cynorthwyo drwy apwyntiadau Zoom gyda'r cyfreithiwr gwirfoddoli o Hodge Jones and Allen. Rydym yn ddiolchgar iawn i Daniel Denton am ei gymorth wrth gynnal y clinig hwn.

### *Y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder*

Y flwyddyn academaidd hon, cynhaliwyd y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder unwaith eto fel prosiect gwirfoddoli a oedd ar gael i fyfyrwyr israddedig y 3edd flwyddyn ar raglenni LLB yn y Gyfraith, ac i fyfyrwyr ar raglenni ôl-raddedig yn Ysgol y Gyfraith. Dyfarnwyd lleoedd ar y prosiect i fyfyrwyr ar sail proses ymgeisio gystadleuol. Yn Semester Un, dewiswyd 10 myfyriwr i weithio ar y prosiect am y flwyddyn academaidd gyfan. Cafodd y myfyrwyr eu dyrannu i gwmnïau, gan weithio ar dri achos gwahanol y buom yn gweithio arnynt drwy gydol y flwyddyn. Bydd y prosiect yn parhau drwy fis Mehefin a mis Gorffennaf fel rhan o'n Clinig Haf. Mae'r myfyrwyr wedi cael eu cefnogi gan Banel Ymgynghorol Inside Justice sy'n cynnwys barnwr wedi ymddeol, bargyfreithwyr, cyfreithwyr, gwyddonwyr fforensig, uwch-swyddogion yr heddlu sydd wedi ymddeol, newyddiadurwyr ac ymgyrchwyr. Yn Semester Dau, ymwelodd Mark Evans, Llywydd Cymdeithas y Cyfreithwyr Lloegr a Chymru â ni a chafodd myfyrwyr gyfle i esbonio gwaith y tîm Camweinyddiad Cyfiawnder.



*Y Tîm Camweinyddiad Cyfiawnder yn cwrdd â Mark Evans, Llywydd Cymdeithas y Cyfreithwyr Lloegr a Chymru*

### *Prosiect Cyfraith Stryd*

Parhaodd ein prosiect Cyfraith Stryd i ddatblygu eleni. Cymerodd 57 o fyfyrwyr ran yn y sesiwn gyntaf yn Semester un ac ymunodd 36 o fyfyrwyr â'r sesiwn gyntaf yn Semester dau.



*Gwirfoddolwyr Cyfraith Stryd yn Ysgol yr Esgob Vaughan, Mawrth 2026*

Cyflwynodd timau Cyfraith Stryd i Ddiwrnodau Agored y Brifysgol drwy gydol y flwyddyn academaidd. Buom yn gweithio eto gydag Ysgol yr Esgob Vaughan ar gyfres o weithdai a gynhaliwyd yn yr ysgol fel rhan o'u "Diwrnod Dinasyddiaeth Weithredol" ym mis Mawrth. Buom yn gweithio gyda Choleg Gŵyr am y tro cyntaf hefyd, â'r nod o ddarparu prynhawn o weithdai i grŵp o fyfyrwyr Safon Uwch. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, bu'n rhaid i ni ohirio'r gweithdai. Rydym yn gobeithio cynnal y rhain yn y flwyddyn academaidd newydd. Buom yn gweithio mewn partneriaeth eto â Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (CLCW) ar gyfres o gyflwyniadau PowerPoint i'w cynnwys ar wefan y Ganolfan fel adnodd dysgu i blant. Cafodd ein myfyrwyr eu cefnogi gan Rhian Howells, Arweinydd Addysg ac Ymgysylltu CLCW a gwnaethon nhw weithio ar amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys Secstio a Hawliau Gweithwyr.

**Sialens Ysgolion y Gyfraith LawWorks**

Cymerodd ein Pwyllgor Codi Arian ran unwaith eto yn **Sialens Ysgolion y Gyfraith LawWorks** i godi arian ar gyfer LawWorks ac Advocate. Ymunodd 17 o fyfyrwyr â'n tîm a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian yn ystod y flwyddyn academaidd, gan gynnwys cwis tafarn a digwyddiadau crefftau.



*Bathodyn Cyfranogwr Sialens Ysgolion y Gyfraith*

**Diwrnod Byd-Eang Gweithredu Dros Gyfiawnder Hinsawdd**

Rydym wedi cymryd rhan unwaith eto yn y digwyddiad blynyddol hwn a drefnir gan Brifysgol Caerefrog. Mae clinigau'r gyfraith mewn prifysgolion o bob cwr o'r byd yn ymrwymo i wneud un peth i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd, ac i feddwl am y rôl y gall athrawon y gyfraith, cyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith ei chwarae wrth fynd i'r afael â newidiadau cymdeithasol mawr megis newid yn yr hinsawdd. Eleni, 'Datgarboneiddio' oedd y thema a threfnodd y Clinig daith gerdded ar draws penrhyn Gŵyr, ynghyd â "Stondin Hadau" a sgwrs. Cynhaliwyd yr holl ddigwyddiadau yn y cyfnod yn arwain at y Diwrnod Gweithredu Byd-eang ar 17 Tachwedd 2025.




*"Stondin Hadau" ar y Diwrnod Gweithredu Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd*

## Canmoliaeth i'r Clinig

Elfen o'r prosiect a oedd yn arbennig o ddiddorol i mi oedd y cyfleoedd i gysgodi apwyntiadau. Mae'r cyfle i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda chleientiaid wedi rhoi i mi gipolwg gwerthfawr ar sut mae cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal, yn ogystal â'r  disgwyliadau o ran tôn a phroffesiynoldeb. Mae wedi rhoi i mi syniad clir o sut i ymddwyn mewn amgylchedd proffesiynol a pha sgiliau eraill dylwn i barhau i'w datblygu.

*Myfyriwr Gwirfoddoli, 2025-2026*

Mae fy mhrofiad gyda Chlinig y Gyfraith Abertawe a'r prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder wedi bod yn un o'r agweddau mwyaf ffurfiannol ar fy addysg gyfreithiol hyd yn hyn. Mae'r cyfle hwn wedi rhoi i mi brofiad uniongyrchol o realiti'r system cyfiawnder troseddol, a'r effaith sylweddol y gall cynrychiolaeth gyfreithiol ei chael ar unigolion sydd wedi rhoi cynnig ar bob llwybr apelio arall heb lwyddiant. Drwy'r rôl hon, rydw i wedi datblygu fy ngalluoedd cyfreithiol a dadansoddol ond hefyd mae gennyf ymdeimlad gwell o gyfrifoldeb proffesiynol, gwydnwch ac ymwybyddiaeth o'r agweddau moesegol ar ymarfer cyfreithiol.

*Myfyriwr Gwirfoddoli, 2025-26*

Hapus iawn gyda'r gwasanaeth ges i. Ces i gynnig apwyntiad dim ond dau ddiwrnod ar ôl cysylltu â'r gwasanaeth. Cafodd galwad Zoom ei chynnig hefyd achos doeddwn i ddim yn gallu mynd i'r Clinig. Staff cyfeillgar iawn, gwasanaeth hygyrch a hawdd ei ddefnyddio, rwy'n argymell y gwasanaeth yn fawr. Diolch i chi.
*Adborth gan un o Gleientiaid y Clinig Galw Heibio , 2025-2026*

Yn gyffredinol, drwy gymryd rhan yng Nghlinig y Gyfraith, rwyf wedi meithrin cymysgedd o sgiliau ymarferol a gwerthfawrogiad dwfn o gyfrifoldebau moesegol a chymdeithasol ymarfer cyfreithiol. Yn ogystal â chynyddu fy hyder, mae'r profiadau hyn wedi ysbrydoli fy uchelgais i ddilyn gyrfa sy'n canolbwyntio ar waith cyfreithiol hygyrch sy'n canolbwyntio ar gleientiaid.
*Myfyriwr Gwirfoddoli, 2025-26*

Roeddwn i'n teimlo bod y gwasanaeth yn ddigyffro ac yn agos atoch ond yn broffesiynol ar yr un pryd. Gwnaeth y myfyrwyr dawelu fy meddwl ac roedd y cyngor ges i o gymorth mawr ac yn bendant ces i wybodaeth ddefnyddiol. Diolch yn fawr i chi am wneud amser gofidus yn haws. Diolch yn fawr
*Adborth gan un o Gleientiaid Addysg Gyfreithiol Glinigol 2025-26*

## Bwrdd y Myfyrwyr

Dyma chweched flwyddyn o weithredu Bwrdd Myfyrwyr y Clinig. Gofynnir i aelodau Bwrdd y Myfyrwyr roi syniadau'n uniongyrchol i staff y Clinig ym mhob un o feysydd blaenoriaethau datblygu a strategol y Clinig.

Cyfarfu'r Bwrdd ddwywaith yn ystod y cyfnod a adolygir.

Yn ystod cyfarfod cyntaf y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl Bwrdd y Myfyrwyr. Drwy gydol y flwyddyn academaidd, bu'r bwrdd yn trafod ac yn adolygu'r modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol. Bu'r Bwrdd yn adolygu hefyd sut roedd y prosiectau Camweinyddiad Cyfiawnder, Cyfraith Stryd, y Diwrnod Gweithredu Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd, Sialens Ysgolion y Gyfraith a'r Cynrychiolydd Cyfryngau Cymdeithasol yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn.

Yn ail gyfarfod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd ba grwpiau o gleientiaid y dylem ymgysylltu â nhw a ffyrdd y gallwn ymgysylltu â chleientiaid yn y dyfodol.

## Digwyddiadau

**Digwyddiad Pwyllgor Pro Bono Cymru** - Aeth yr Athro Rich Owen i'r digwyddiad hwn yn y Senedd ar 4 Tachwedd 2025 a 12 Chwefror 2026.

**Gwobrau Pro Bono 2025 LawWorks a'r Twrnai Cyffredinol** - Aeth yr Athro Rich Owen i Wobrau Pro Bono LawWorks a'r Twrnai Cyffredinol ar 3 Rhagfyr 2025.

**Y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol** - Bu'r Athro Rich Owen yn bresennol yng nghyfarfod chwarterol y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol ar 19 Ionawr 2026, ac yng Ngweithgor y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol ar 26 Ionawr 2026.

**Arddangosiad y Gyfadran** - Trefnodd Rheolwr y Clinig daith o Glinig y Gyfraith fel rhan o Arddangosiad y Gyfadran ddydd Llun 12 Ionawr 2026.

**Prosiect *better* Bonymaen** - Parhaodd yr Athro Rich Owen i gefnogi prosiect *better* Bonymaen.

**Cyfarfod y Pwyllgor Mynediad at Gyfiawnder** - Aeth yr Athro Rich Owen i gyfarfod y Pwyllgor Mynediad at Gyfiawnder ar 9 Chwefror 2026.

**Ymweliad gan Lywydd Cymdeithas y Cyfreithwyr Lloegr a Chymru** - Ymwelodd Mark Evans, Llywydd Cymdeithas y Cyfreithwyr Lloegr a Chymru, â Chlinig y Gyfraith ar 25 Mawrth 2026, a chyfarfu â'n myfyrwyr Camweinyddiad Cyfiawnder.

**Swyddfa Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru** - Aeth yr Athro Rich Owen i Ddigwyddiad Dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant  Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru ar 26 Chwefror 2026.

**Clinig Galw Heibio Ysgol Gymunedol y Gors** - Cyfarfu Rheolwr a Chyfarwyddwr y Clinig â Dirprwy Bennaeth Ysgol Gymunedol y Gors â'r nod o gymryd rhan mewn Clinig Galw Heibio yn yr ysgol ar gyfer darparwyr cyngor ddydd Llun 16 Mawrth 2026.

**Cinio Rhwydweithio Blynyddol Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe** - Aeth Rheolwr y Clinig i Ginio Rhwydweithio Blynyddol Ysgol y Gyfraith ar 20 Mawrth 2026.

**Ymweliad gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol -** Ymwelodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol â Chlinig y Gyfraith a chwrddodd â Chyfarwyddwr a Rheolwr y Clinig ar 23 Ebrill 2026.Trafodwyd nifer o bynciau, gan gynnwys materion mynediad at gyfiawnder, rheoleiddio cyngor ar fewnfudo, partneriaeth cyfiawnder iechyd a datblygu ap AI.

**Gwobrau Legal News Wales** - Mae Clinig y Gyfraith Abertawe wedi cael ei enwebu am un o Wobrau Blynyddol Legal News Wales yn y categori Pro Bono a gwahoddwyd Cyfarwyddwr a Rheolwr y Clinig i gyfweliad gyda phanel y beirniaid yn swyddfeydd Menzies LLP ar 27 Ebrill 2026.




## Rhwydweithiau

Mae aelodau staff y Clinig yn cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau.

Parhaodd yr Athro Rich Owen i gadeirio **Pwyllgor Mynediad at Gyfiawnder Cymdeithas y Cyfreithwyr.**

Dechreuodd Rich Owen ar ei waith gyda'r **Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol**, sy'n meithrin gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyngor, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Clinig y Gyfraith Abertawe'n parhau i fod yn aelod o **Rwydwaith Cyngor Rhanbarthol Abertawe Castell-nedd Port Talbot**.

Mae'r Athro Rich Owen yn aelod o **Banel Arbenigwyr Defnyddwyr Agored i Niwed yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.**

Parhaodd yr Athro Rich Owen i weithio gyda'r prosiect ***better Bonymaen*** drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

Parhaodd yr Athro Rich Owen i weithio gyda'r **Bartneriaeth Cyfiawnder Iechyd**, partneriaeth amlddisgyblaethol ar y cyd ag Ysbyty Singleton.

Parhaodd Clinig y Gyfraith Abertawe i weithio gyda **Phrosiect Odyssey** y Clinig drwy gydol y cyfnod adrodd hwn. Mae gwaith Prosiect Odyssey yn cynnwys datblygu ap y gall unigolion a busnesau bach a chanolig ei ddefnyddio i gael mynediad at adnoddau cyngor cyfreithiol am ddim.

Parhaodd ein **Prosiect System Atgyfeirio SNPTCAN** i weithio gyda thros 100 o sefydliadau yn yr ardal leol sy'n cydweithredu drwy ddefnyddio'r system atgyfeirio.

## Ymchwil a Datblygu

**Prosiect Odyssey** sy'n rhan o brosiect ymchwil a ariennir gan Innovate UK. Partneriaid y prosiect yw: Tabled Technologies Ltd, Prifysgol Northumbria, Prifysgol Keele, Prifysgol Durham a'r Archifau Cenedlaethol. Prif amcan y prosiect yw datblygu ap Cynorthwy-ydd AI i ddarparu cyngor cyfreithiol rhad/am ddim i unigolion a busnesau bach a chanolig, gan ganolbwyntio ar gyfraith lles cymdeithasol.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Bu staff a myfyrwyr cynghori'n cymryd rhan mewn nifer o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Cwblhaodd Ellen Parker-Jones Hyfforddiant Datblygu Addysg Hydra ar 19 Medi 2025.

Cwblhaodd Jess Williams, Uwch-weinyddwr Prosiect SNPTCAN, ac Aisha Bashir, Swyddog Ymchwil Prosiect Odyssey, yr holl hyfforddiant gorfodol a bennwyd gan y Brifysgol.

Cymerodd Ellen Parker-Jones ran mewn hyfforddiant ar AI cynhyrchiol ar 9 Rhagfyr 2025.

Cwblhaodd Ellen Parker-Jones hyfforddiant Cefnogi Myfyrwyr gyda'u Hiechyd Meddwl ar 18 Mai 2026.

Mae Rich Owen yn astudio cwrs Manyleb Lefel Ganolradd (Cymraeg i Oedolion) gyda Choleg Gwent.